# ATODIAD B: Cronfa Twf Lleol – Syniadau cychwynnol ar Ddamcaniaeth Newid

Ein huchelgais yw cefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru

Mae'r atodiad hwn yn ceisio crynhoi rhai o'r canfyddiadau o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, y dystiolaeth ehangach, a'r drafodaeth yn y ddogfen ymgynghori i ddangos syniadau cychwynnol ar ddamcaniaeth newid ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru. Y bwriad yw disgrifio'n fyr y meysydd hynny lle credwn y gallai'r Gronfa Twf Lleol gael rhai effeithiau mesuradwy, pe baent yn cael eu blaenoriaethu.

Enghreifftiol yn unig yw'r dystiolaeth a'r gweithredoedd, ac nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn gynhwysfawr. Maent wedi'u cynllunio er mwyn dangos y rhesymeg dros yr amcanion a gynigir ac i ddarparu rhai enghreifftiau o fathau o weithgareddau a allai gyfrannu tuag at yr amcanion hynny. Unwaith y cytunir ar amcanion, bydd hyblygrwydd i nodi'r camau gweithredu mwyaf addas i'w cyflawni y tu hwnt i'r hyn a nodir yma.

**Blaenoriaeth 1: Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Mae busnesau newydd yn sbardun allweddol ar gyfer arloesi, gan wella deinameg economaidd a thwf hirdymor (OECD) | Y mater o dan sylw:<br>Gall y dirwedd fusnes gael ei dominyddu gan lawer o ficro-fusnesau a chwmnïau bach, gyda llai o gwmnïau canolig a mawr sy'n gysylltiedig â | **Cynyddu nifer y busnesau newydd a chwmnïau deillio gyda'r potensial i dyfu sy'n cael eu creu, gan gynnwys canolbwyntio ar grwpiau a mentrau cymdeithasol** | Cyllid ar gyfer busnesau newydd a chwmnïau deillio mewn meysydd sydd â'r potensial mwyaf i dyfu lle mae diffygion yn y farchnad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfraddau cychwyn a goroesi yn is na chyfartaledd y DU (Llywodraeth Cymru, Demograffeg Busnes 2023)<br><br>Rhwystrau i dwf busnesau newydd a chwmnïau deillio yng Nghymru (Coadec Startup Wales 2023)<br><br>Lefelau is o dwf microfusnesau i BBaChau (Dadansoddiad o Faint Llywodraeth Cymru o Fusnesau Gweithredol yng Nghymru, 2023)<br><br>Rhwystrau Penodol / tangynrychiolaeth o fentrau cymdeithasol a busnesau newydd gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (prif rwystrau ERC i entrepreneuriaeth mewn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli 2020; Arolwg Social Enterprise UK 2023) | chynhyrchiant uwch. Mae llawer o ficro-fusnesau yn methu â thyfu, gan gyfyngu ar dwf economaidd a chynhyrchiant cyffredinol.<br><br>Cyfle:<br><br>Cynyddu nifer y busnesau newydd a chwmnïau deillio yng Nghymru drwy fynd i'r afael â rhwystrau fel cyllid a chyngor.<br><br>Cynyddu nifer y busnesau newydd a chwmnïau deillio sydd â photensial i dyfu a fydd yn dod yn BBaChau a busnesau mwy.<br><br>Cymorth wedi'i dargedu i grwpiau a mentrau cymdeithasol sydd wedi'u tangynrychioli i fanteisio ar botensial heb ei | **sy'n cael eu tangynrychioli.** | Cymorth a chyngor busnes sy'n gysylltiedig ag unrhyw gymorth ariannol i ddechrau a thyfu busnes.<br><br>Cymorth wedi'i deilwra i fentrau cymdeithasol i hyrwyddo modelau busnes amgen, gan gynnwys pryniant gan staff.<br><br>Cymorth wedi'i deilwra i fynd i'r afael â rhwystrau penodol sy'n wynebu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (e.e. menywod, grwpiau lleiafrifol, ac ati). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddefnyddio a modelau busnes newydd. | | |

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Lefelau is o fuddsoddiad mewn BBaChau a mentrau cymdeithasol (Adroddiad Blynyddol Dirnad Economi Cymru  Medi 2025)<br><br>Gwahaniaethau rhanbarthol mewn mynediad at gyfleoedd cyllid ar gyfer twf (Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru 2025)<br><br>Lefelau is o fynediad at gyfleoedd allforio (Rhagolygon economaidd a chyllidol y | Y mater o dan sylw:<br><br>Gall rhwystrau i ehangu, allforio a denu buddsoddwyr dagu busnesau presennol ac atal twf ac ehangu, yn enwedig wrth gynnal gweithgaredd am y tro cyntaf. Yn ei dro, gall hyn arwain at lai o gystadleuaeth, mygu arloesedd, a chyfyngu ar ragolygon twf.<br><br>Cyfle: | **Mynd i'r afael â rhwystrau i dwf (e.e. ehangu, allforio a denu buddsoddwyr) ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaCh) a mentrau cymdeithasol sydd â'r potensial mwyaf i dyfu.** | Cyllid ad-daladwy i BBaChau a mentrau cymdeithasol sydd â’r potensial mwyaf i dyfu lle mae diffygion yn y farchnad.<br><br>Cymorth uniongyrchol i gefnogi cynnydd cyffredinol mewn allforion, yn enwedig mewn meysydd o fantais gystadleuol (e.e. teithiau masnach, ymchwil marchnad).<br><br>Cymorth a chyngor busnes wedi'i dargedu, yn enwedig pan fo'n gysylltiedig â chymorth arall, i fynd i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Mawrth 2024 | Cynyddu twf busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol sydd â photensial twf uchel trwy nodi a theilwra atebion i fynd i'r afael â rhwystrau i fuddsoddi ar bwyntiau allweddol yn y broses o dyfu ac ehangu busnes.<br><br>Mwy o gystadleurwydd gan fusnesau Cymru yn rhyngwladol a lefelau uwch o arloesi a chynhyrchiant lle mae twf yn gynaliadwy. | | afael â rhwystrau penodol i dwf (e.e. mynediad at fuddsoddwyr).<br><br>Cymorth lle mae angen atebion wedi'u teilwra i fynd i'r afael â rhwystrau twf a chefnogi rhwydweithiau penodol i'r sector. |

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Lefelau is o fenthyca i BBaChau yng Nghymru ([Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru - 2025](#))<br><br>Gwahaniaethau rhanbarthol yn y defnydd o grantiau ([Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru - 2025](#)) | Y mater o dan sylw:<br><br>Mae hanes o danfuddsoddi yn arwain at ecosystemau ariannol llai datblygedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i gwmnïau lleol ddenu cyfalaf.  Mae hyn yn golygu bod anghydraddoldeb rhanbarthol a lefelau uchel o anweithgarwch economaidd yn parhau.<br><br>Cyfle:<br><br>Cynyddu'r defnydd o gyllid ad-daladwy gan fusnesau a mentrau cymdeithasol trwy fynd i'r afael â rhwystrau fel argaeledd, cymhlethdod ac addasrwydd. | **Mynd i'r afael â diffygion penodol yn y farchnad o ran cael gafael ar gyllid ad-daladwy i sefydlu a thyfu busnesau a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.** | Defnyddio buddsoddiadau benthyciad, ecwiti neu fesanîn ar gyfer busnesau a mentrau cymdeithasol i fynd i'r afael â diffygion penodol yn y  farchnad a lle mae potensial uchel ar gyfer twf. Gallai'r rhain fod ar sail sectorol, daearyddol neu thematig.<br><br>Rhoi hwb i gynlluniau cyllid ad-daladwy cenedlaethol, rhanbarthol neu leol presennol lle mae gwerth ychwanegol (e.e. i ymestyn i ardaloedd llai datblygedig neu dargedu sector penodol sydd wedi'i danwasanaethu).<br><br>Cymorth a chyngor wedi'u teilwra ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chymorth ariannol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynyddu nifer y busnesau newydd a chwmnïau deillio gyda'r potensial i dyfu sy'n cael mynediad at gyllid ad-daladwy. | | Cronfeydd buddsoddi cyfalaf i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf gan fusnesau neu seilwaith allweddol lle mae opsiynau cyllid ad-daladwy yn hyfyw. |

| **Tystiolaeth enghreifftiol** | **Mater/cyfle** | **Amcan** | **Camau enghreifftiol** |
|---|---|---|---|
| Lefelau is o fusnesau sy'n ymwneud â datblygu ymchwil ac arloesi ac sy'n elwa ar gyfnewid gwybodaeth ( Llywodraeth Cymru: Cynllun cyflawni Cymru'n arloesi )<br><br>Tanfuddsoddiad mewn ymchwil yng Nghymru mewn sectorau twf ers colli cyllid yr UE (Ymgynghoriad Pwyllgor ETRA | Y mater o dan sylw:<br><br>Mae materion allweddol yn cynnwys diffyg cydlyniant, adnoddau anghyson, a chyfyngiadau ar adeiladu capasiti sy'n rhwystro'r gallu i barhau i fod yn gystadleuol. Mae ymchwil yn sail i dwf cynhyrchiant, ond mae sefydliadau | **Cynyddu lefelau buddsoddiad mewn ymchwil, datblygu, arloesi a chyfnewid gwybodaeth mewn busnesau a sefydliadau ymchwil, gan gynnwys ym meysydd fel AI, seiberddiogelwch, a thwf digidol a gwyrdd.** | Cyllid ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (RD&I) mewn sectorau twf uchel sy'n gysylltiedig â masnacheiddio neu fabwysiadu arloesedd.<br><br>Cymorth sector penodol lle mae cryfderau a photensial cystadleuol presennol (e.e. AI, Seiberddiogelwch, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ar gyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE - Ymateb Prifysgolion Cymru)<br><br>Cefnogaeth dameidiog ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol (Llywodraeth Cymru: Cynllun cyflawni Cymru'n Arloesi) | Cymru yn llai llwyddiannus o ran sicrhau cyllid cystadleuol, gan greu cylch dieflig.<br><br>Cyfle:<br><br>Cynyddu nifer y busnesau a'r cyrff ymchwil yng Nghymru sy'n cydweithio ym maes ymchwil ac arloesi drwy fynd i'r afael â rhwystrau fel cyllid a chyngor.<br><br>Cynyddu nifer y partneriaethau rhwng prifysgolion, busnesau a chyrff yn y DU ac yn rhyngwladol.<br><br>Cefnogaeth i gwmnïau deillio sy'n defnyddio IP gyda photensial twf mewn sectorau twf uchel. | | Cysylltedd, Gwyddorau Bywyd, Economi Werdd).<br><br>Cymorth i greu partneriaethau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi dan arweiniad Cymru gyda sefydliadau'r DU a rhyngwladol mewn meysydd cryfder neu fantais gystadleuol bosibl.<br><br>Cymorth a chyngor busnes sy'n gysylltiedig ag unrhyw gymorth ariannol ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi.<br><br>Cefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer cwmnïau deillio gan ddefnyddio IP mewn sectorau twf uchel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gall buddsoddi mewn capasiti a seilwaith datblygu ymchwil ac arloesi i ddarparu'r amodau cywir i ddatblygu cryfderau presennol a chynyddu cystadleurwydd. | | |

**Blaenoriaeth 2: Cefnogi Pobl i Gael Gwaith a Chynyddu eu Sgiliau**

| Tystiolaeth Enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Lefelau uwch o anweithgarwch economaidd yng Nghymru na'r DU (Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ):Ebrill 2024 - Mawrth 2025 \| HTML LLYW.CYMRU)<br><br>Lefelau cynyddol o anweithgarwch economaidd mewn grwpiau penodol, gan gynnwys pobl ifanc a phobl hŷn ( Y Sefydliad Dysgu a Gwaith - data briffio NEET Ebrill 2025)<br><br>Cynnydd mewn anweithgarwch economaidd oherwydd cyflyrau iechyd hirdymor, gan gynnwys | Y mater o dan sylw:<br><br>Mae anweithgarwch economaidd yn gysylltiedig ag incwm is a gall atgyfnerthu anghydraddoldebau economaidd. Mae'n lleihau mynediad at lafur i fusnesau a gall rwystro twf economaidd, cynyddu galwadau ar gyllid cyhoeddus, a lleihau'r sylfaen dreth.<br><br>Cyfle:<br><br>Cynyddu nifer y bobl ifanc, pobl anabl, menywod a phobl o gymunedau ethnig | **Lleihau lefelau anweithgarwch economaidd, yn enwedig ymysg pobl ifanc, pobl anabl, menywod a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.** | Cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu a'i deilwra, gan ymgysylltu â rhwydweithiau cymunedol a'r trydydd sector.<br><br>Cymorth i BBaChau a mentrau cymdeithasol i annog recriwtio cynhwysol.<br><br>Cymorth cyflogadwyedd, iechyd a llesiant integredig , gan gynnwys cyflogaeth â chymorth, gwasanaeth hyfforddi swyddi ac addasiadau yn y gweithle.<br><br>Cymorth wedi'i deilwra i fynd i'r afael â rhwystrau penodol sy'n wynebu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cyflyrau iechyd meddwl. (Briff Iechyd Cyhoeddus Cymru Rhagfyr 2022)<br><br>Rhwystrau penodol i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn y farchnad lafur (Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru 2022) | lleiafrifol yn y gweithlu drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth.<br><br>Mwy o gydlynu cymorth cyflogadwyedd yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.<br><br>Gwella hygyrchedd rhaglenni cyflogadwyedd.<br><br>Cynyddu canlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl sydd wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu, gan gynnwys pobl anabl, menywod a lleiafrifoedd ethnig. | | (e.e. menywod, grwpiau lleiafrifol, ac ati). |

| Tystiolaeth Enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Diffyg cyfleoedd cyfartal i gael mynediad at waith teg a gwerth chweil a chyfle i symud ymlaen (Anghydraddoldeb hil yn y Gweithlu - Carnegie UK; Cyflogaeth pobl anabl yn y DU: Adolygiad thematig o'r llenyddiaeth - GOV.UK )<br><br>Bwlch cyflog lleiafrifoedd ethnig a bwlch cyflog rhwng y rhywiau Llesiant Cymru, 2024: cynnydd tuag at gerrig milltir cenedlaethol<br><br>Lefelau cyflogau, cynhyrchiant a chymwysterau is (Trosolwg o'r farchnad lafur: Ionawr 2025 (prif ganlyniadau) [HTML] \| LLYW. CYMRU; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Amcangyfrif sydyn o gynhyrchiant a throsolwg, DU: | Y mater o dan sylw:<br><br>Mae rhwystrau strwythurol yn atal grwpiau penodol rhag cael mynediad at swyddi a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd sy'n gwreiddio anfanteision systemig ymhellach ac yn arwain at wastraff sylweddol o botensial dynol.<br><br>Cyfle:<br><br>Cynyddu cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer cadw a datblygu gweithwyr.<br><br>Cynyddu nifer y cyflogwyr yng Nghymru sy'n cynnig gweithleoedd teg a | **Gwella'r broses o gadw a datblygu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gwaith, gan gynnwys heriau cyflogaeth ansicr a chyflogau isel.** | Cymorth cyflogadwyedd wrth ddatblygu yn y gwaith.<br><br>Canllawiau a chefnogaeth wedi'u teilwra i gyflogwyr i annog recriwtio, cadw a dilyniant mewn modd sy'n gynhwysol i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chefnogol, a chyfleoedd i ddatblygu.<br><br>Cynyddu cyfran y rhaglenni buddsoddi rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>Cynyddu mynediad at hyfforddiant a sgiliau yn y gwaith mewn sectorau blaenoriaeth. | | |

| **Tystiolaeth Enghreifftiol** | **Mater/cyfle** | **Amcan** | **Camau enghreifftiol** |
|---|---|---|---|
| Cyflawniad is o gymwysterau ar bob lefel ( Sut mae lefelau cymwysterau'r gweithlu yn wahanol ar draws Cymru a Lloegr - Cyfrifiad 2021, ONS) | Y mater o dan sylw:<br>Mae lefelau sgiliau is yn gysylltiedig â photensial i ennill llai, cyfraddau diweithdra uwch, a | **Gwella lefelau cymwysterau a/neu sgiliau, gan ganolbwyntio ar sgiliau sylfaenol ac uwch.** | Sicrhau bod mwy o sgiliau sylfaenol sydd wedi'u hymgorffori mewn cymorth cyflogadwyedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnydd mewn lefelau anweithgarwch economaidd i bobl heb gymwysterau neu gymwysterau lefel isel (Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024, Anweithgarwch economaidd yn ôl lefel cymhwyster - GOV.UK 2023)<br><br>Diffyg sgiliau lefel uwch yn y gweithlu mewn sectorau allweddol (Dyfodol Datblygu Rhanbarthol a Buddsoddiad Cyhoeddus yng Nghymru - OECD) | chanlyniadau iechyd gwael i unigolion, sydd yn ei dro yn cyfyngu twf economaidd, yn cynyddu anghydraddoldeb, ac yn rhoi straen ar wasanaethau cyhoeddus.  Mae lefelau sgiliau uwch yn gysylltiedig â chynhyrchiant uwch, twf mewn swyddi newydd, lefelau uwch o arloesedd, a mwy o gystadleuaeth.<br><br>Cyfle:<br>Cynyddu argaeledd a chyfraddau cwblhau cymwysterau sgiliau.<br><br>Cynyddu cefnogaeth ar gyfer sgiliau llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol hanfodol. | | Partneriaethau gydag addysg bellach/addysg uwch a chyflogwyr i ddylunio hyfforddiant i fynd i'r afael â materion lleol penodol, bylchau penodol i'r sector, neu sgiliau cyffredinol y mae galw amdanynt ar draws yr economi.<br><br>Buddsoddiadau sgiliau lefel uwch wedi'u targedu at fylchau presennol neu fylchau newydd mewn sectorau neu leoedd allweddol, yn enwedig pan fônt yn gysylltiedig â chynlluniau tymor hir.<br><br>Cyflwyno strategaethau sgiliau lleol, rhanbarthol a sectorol i dargedu bylchau penodol yn y ddarpariaeth bresennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynyddu faint o hyfforddiant lefel uwch sy'n cyfrannu at gefnogi sectorau twf. | | |

| Tystiolaeth Enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Prinder sgiliau yn y gweithlu mewn sectorau allweddol gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, yr economi sylfaenol, yr economi werdd a bylchau sgiliau digidol ac AI. Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2022:Adroddiad Cymru<br><br>Lefelau is o gymwysterau, yn enwedig mewn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli Anweithgarwch economaidd yn ôl lefel cymwysterau - GOV.UK | Y mater o dan sylw:<br><br>Gall prinder sgiliau gyfyngu ar dwf a chynhyrchiant, cynyddu costau, a gall gael effeithiau negyddol ar forâl a lefelau cadw gweithwyr. Mae'r materion yn cynnwys costau gweithredu uwch oherwydd cyflogau cynyddol ac ymdrechion recriwtio, allbwn ac ansawdd gwaith is, anhawster cwrdd â galw | **Cymorth a hyfforddiant sgiliau wedi'u teilwra sy'n seiliedig ar alw ar gyfer sectorau sydd â'r potensial mwyaf i dyfu neu sectorau o bwysigrwydd rhanbarthol.** | Darpariaeth hyfforddiant wedi'i alinio â chynlluniau sgiliau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a blaenoriaethau i fynd i'r afael â bylchau.<br><br>Ymgysylltu â chyflogwyr wrth ddylunio rhaglenni hyfforddi, yn enwedig pan fo sectorau wedi'u blaenoriaethu mewn cynlluniau sgiliau neu i gefnogi cyfleoedd twf sylweddol (e.e. FLOW neu niwclear). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffeithiau a ffigurau ethnigrwydd | cwsmeriaid, rhwystro arloesedd , a staff presennol o dan fwy o straen ac yn gorflino, wrth i gwmnïau ymdrechu i gynnal gweithrediadau ac ehangu. Yng Nghymru, gallai olygu bod llai o gyfleoedd sydd ar gael i'r boblogaeth leol mewn sectorau twf uchel.<br><br>Cyfle:<br><br>Mynd i'r afael â datblygu sgiliau sy'n seiliedig ar alw, wedi'u targedu at sectorau allweddol.<br><br>Ehangu llwybrau dysgu ar gyfer unigolion yn unol â'r galw a sectorau sy'n bwysig yn rhanbarthol. | | Hyfforddiant hygyrch wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn meysydd cyfleoedd twf, e.e. pobl ifanc, pobl anabl, menywod, lleiafrifoedd ethnig. |

**Blaenoriaeth 3: Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni**

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Gostyngiad mewn prosiectau ynni lleol (Adroddiad Cyflwr y sector Ynni Cymunedol 2025)<br><br>Angen cyrraedd y targed o 100% o ddefnydd blynyddol o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2035Cynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru (2021-2025)<br><br>Rhwystrau penodol (cyfyngiadau grid, diffyg proffidioldeb) yn enwedig mewn ardaloedd incwm isel neu anghysbell ( Cynhyrchu Ynni yng Nghymru:2022) | Y mater o dan sylw:<br><br>Trawsnewidiad ynni anghyfartal ac araf, sy'n lleihau buddion cymunedol, a cholli rheolaeth leol dros systemau ynni. Mae prosiectau cymunedol yn wynebu nifer o rwystrau systemig, gan gynnwys cefnogaeth annigonol gan y llywodraeth a rheoliadau marchnad cymhleth, sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt gystadlu â datblygiadau masnachol ar raddfa fawr<br><br>Cyfle: | **Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel, yn enwedig pan ei fod dan berchnogaeth leol ac yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol** | Cyllid ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, gan flaenoriaethu modelau perchnogaeth leol.<br><br>Cyllid ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi mewn technolegau gwyrdd.<br><br>Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer datblygu sgiliau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynyddu capasiti ynni adnewyddadwy sydd o dan berchnogaeth leol trwy fynd i'r afael â rhwystrau.<br><br>Cynyddu cyfran yr ynni carbon isel sy'n cyflawni yn erbyn anghenion ynni rhanbarthol. | | |

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Mae trafnidiaeth ffyrdd yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau yng Nghymru (Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd 2025) | Y mater o dan sylw:<br>Trafnidiaeth a chysylltedd yn hanfodol i fusnesau dyfu a pharhau i fod yn gystadleuol, gan arwain at gyfyngiadau a risg o | **Cefnogi seilwaith trafnidiaeth a chysylltedd digidol carbon isel lle mae'n cefnogi blaenoriaethau twf rhanbarthol.** | Cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth carbon isel ar lefel leol a rhanbarthol lle nodir rhwystrau sy'n cyfyngu ar dwf (e.e. mynediad i safleoedd cyflogaeth). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anghydraddoldebau cysylltedd digidol mewn rhannau o Gymru, yn enwedig ardaloedd gwledig (**Adroddiad Cenhedloedd Cysylltiedig Cymru 2024**) | ehangu y tu allan i Gymru.<br><br>Cael eu heithrio o wasanaethau hanfodol fel addysg, gofal iechyd, cyflogaeth, a gwaethygu anghydraddoldebau presennol ar sail oed, incwm, rhyw ac ethnigrwydd. Mae materion yn cynnwys mynediad at opsiynau teithio, rhyngrwyd anfforddiadwy, diffyg sgiliau digidol, dyfeisiau a seilwaith digidol annigonol, sydd gyda'i gilydd yn gwneud i bobl deimlo'n ynysig a'u bod yn methu â chymryd rhan lawn mewn cymdeithas.<br><br>Cyfle:<br>Cynyddu seilwaith allyriadau isel iawn, gan | | Cefnogi prosiectau sy'n cael eu blaenoriaethu mewn cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol fel rhai sy'n bwysig i dwf yr economi ranbarthol.<br><br>Buddsoddi mewn cysylltedd digidol lle nad yw diffygion yn y farchnad yn cael eu trin gan gynlluniau eraill, ond yn cyfyngu ar gyfleoedd economaidd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynnwys rhwydweithiau teithio llesol. | | |

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Diffyg yn y farchnad mewn ardaloedd incwm isel neu anghysbell (Deall y rhwystrau a'r hyn sydd o gymorth wrth gefnogi aelwydydd tlawd o ran tanwydd i gyflawni sero net Llywodraeth y DU)<br><br>Aneffeithlonrwydd ynni tai sy'n arwain at allyriadau uwch, costau ynni uwch ac anghydraddoldebau iechyd (Mae gwella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi Cymru yn hanfodol i iechyd a llesiant - Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Y mater o dan sylw:<br><br>Costus i wresogi ac oeri cartrefi, gan orfodi aelwydydd i wario cyfran uchel o'u hincwm ar ynni, gan arwain at dlodi tanwydd, salwch, a dyled.<br><br>Cyfle:<br><br>Targedu buddsoddiadau cyfalaf mewn meysydd o ddiffyg yn y farchnad, gan ganolbwyntio ar systemau gwresogi | **Cefnogi buddsoddiad cyfalaf, lle mae diffyg yn y farchnad, i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni ym maes tai.** | Cymorth i alluogi mentrau cymdeithasol a busnesau lleol i ddarparu gwasanaethau ôl-osod ac effeithlonrwydd ynni.<br><br>Cymorth ar gyfer gweithgareddau wedi'u targedu a nodwyd mewn cynlluniau ynni ardaloedd rhanbarthol a lleol i fynd i'r afael â diffygion yn y farchnad a manteisio ar gyfleoedd twf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae costau ynni cynyddol yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd incwm isel (Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru (prif ganlyniadau): ym mis Hydref 2024 \| LLYW. CYMRU | carbon isel ac effeithlonrwydd ynni.<br><br>Datblygu cadwyni cyflenwi o fusnesau lleol a mentrau cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd lle mae diffygion yn y farchnad. | | |

**Blaenoriaeth 4: Seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol**

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Yr angen am fuddsoddiad wedi'i dargedu'n rhanbarthol i fynd i'r afael â chydraddoldeb a thwf economaidd rhanbarthol gwahanol (Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru)<br><br>Gwahaniaethau rhanbarthol mewn twf economaidd (Adolygiad yr OECD o Wahanol Haenau Llywodraethu: Symud Ymlaen gyda'n Gilydd 2024) | Y mater o dan sylw:<br><br>Lefelau isel o fuddsoddiad cyfalaf gan y sector preifat yn ffactor allweddol posibl o ran twf cynhyrchiant is. Lefelau isel o fuddsoddiad cyhoeddus mewn seilwaith sy'n cefnogi'r amgylchedd i bob busnes oroesi a thyfu. Rhwystro buddsoddiad, cyfyngu'r swyddi sy'n cael eu creu, parhad yn y gwahaniaeth economaidd o fewn ac ar draws rhanbarthau.<br><br>Cyfle: | **Datblygu safleoedd ac adeiladau allweddol sy'n bwysig ar gyfer twf rhanbarthol ac mewn sectorau twf a flaenoriaethir yn rhanbarthol lle mae diffyg yn y farchnad.** | Buddsoddiad i fynd i'r afael â diffygion yn y farchnad wrth gyflwyno safleoedd ac adeiladau â photensial uchel sydd wedi'u tanddefnyddio (e.e. adfer, arolygon).<br><br>Ystyried cyfleoedd i fynd i'r afael â bylchau cyllid i ddefnyddio buddsoddiad preifat lle mae galw am adeiladau ond mae diffyg yn y farchnad wrth gwrdd â rhan o'r cyllid.<br><br>Buddsoddiad integredig mewn canol trefi, sy'n gysylltiedig â chynlluniau lleoedd presennol cydlynol a seiliedig ar dystiolaeth a strategaeth ehangach (e.e. trawsnewid trefi). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gall datblygu safleoedd strategol ddenu buddsoddiad, creu swyddi mewn meysydd lle mae angen ac ysgogi economïau lleol.<br><br>Fel rhan o strategaeth ranbarthol ar y cyd, gall creu clystyrau neu ardaloedd o fantais gystadleuol wirioneddol, lle mae cryfderau lleol a rhanbarthol yn cael eu defnyddio a photensial mewn sectorau twf yn cael eu harneisio. | | |

| **Tystiolaeth enghreifftiol** | **Mater/cyfle** | **Amcan** | **Camau enghreifftiol** |
|---|---|---|---|
| | Y mater o dan sylw: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwahaniaethau rhanbarthol mewn mynediad at drafnidiaeth a chysylltedd (Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2022 i 2027)<br><br>Anghydraddoldebau mewn mynediad at waith o safon a gwaith gwerth chweil yng Nghymru (Institute for the Future of Work - Cyfres Amser Gwaith Da 2025) | Cylch o anfantais sy'n cyfyngu ar gyfleoedd a all arwain at ddirywiad economaidd, yn enwedig lle mae cysylltedd gwael yn lleihau rhwydweithiau a manteision cydgrynhoi.<br><br>Cyfle:<br><br>Gall buddsoddiad cydgysylltiedig mewn seilwaith hyrwyddo twf a lleihau gwahaniaethau rhanbarthol, gyda manteision sy'n gysylltiedig â chlystyrau a chefnogi cydgrynhoi.<br><br>Cyd-fynd â Pharthau Buddsoddi, Ardaloedd Menter, bargeinion twf a buddsoddiadau rhanbarthol eraill. | **Gwella seilwaith economaidd lleol, gan gynnwys trafnidiaeth, cysylltedd digidol, mannau gwyrdd ac asedau cymunedol i gefnogi cymunedau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, arfordirol, dinas a threfol.** | Buddsoddi mewn seilwaith digidol i gefnogi sectorau twf lle mae diffygion yn y farchnad a chyfleoedd penodol wedi'u nodi.<br><br>Gwella cysylltiadau trafnidiaeth a theithio llesol i wneud safleoedd cyflogaeth yn hygyrch.<br><br>Cefnogi prosiectau perthnasol a nodir mewn cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol neu gynlluniau datblygu strategol lle mae cyfleoedd twf.<br><br>Galluogi seilwaith twf lleol mewn seilwaith lleol ar raddfa fach, cysylltedd digidol, a chyfleusterau cyhoeddus i ddatgloi buddsoddiad ehangach. Gall hyn gefnogi blaenoriaethau ehangach fel adfywio yn seiliedig ar leoedd a denu busnesau a thrigolion newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cefnogi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. | | |

| Tystiolaeth enghreifftiol | Mater/cyfle | Amcan | Camau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Tanfuddsoddi mewn asedau gyda'r potensial o gefnogi twf rhanbarthol (Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chwaraeon y Senedd, 2025)<br><br>Gwahaniaethau rhanbarthol parhaus mewn buddsoddiad (Adolygiad yr OECD o wahanol haenau llywodraethu: symud ymlaen gyda'n gilydd 2024) | Y mater o dan sylw:<br>Dirywiad economaidd, erydiad hunaniaeth gymunedol, a chanlyniadau iechyd cyhoeddus gwael.<br><br>Cyfle:<br>Cefnogaeth i ddatblygiadau twristiaeth a datblygiadau ym maes diwylliant, iechyd a llesiant i gefnogi canlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach. | **Buddsoddi mewn asedau treftadaeth, twristiaeth, neu ddiwylliannol â blaenoriaeth i gefnogi uchelgeisiau twf rhanbarthol a chyfleoedd lleol.** | Cymorth wedi'i dargedu i ddatblygu asedau gyda manteision a chanlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach. |